Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lefel 2

Haf 2026

© WJEC CBAC Cyf.2026



Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

Cefnogaeth bellach

Mapio	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Cyf.2026

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	Porth CBAC
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	https://adnoddau.cbac.co.uk/
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC.
Arholi gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	Arholi gyda ni | CBAC

© WJEC CBAC Cyf.2026

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol	5
Uned 1: Hybu Iechyd a Llesiant drwy gydol camau bywyd	7
Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog	10
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a dolenni defnyddiol	15

© WJEC CBAC Cyf.2026

Crynodeb Gweithredol

Asesu Allanol: Uned 1

Arhosodd y perfformiad yn yr arholiadau eleni yn sefydlog o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol gyda llawer o'r ymgeiswyr yn dangos lefelau da o wybodaeth a dealltwriaeth. Roedd yn braf gweld cynnydd yn niferoedd yr ymgeiswyr a astudiodd y cymhwyster hwn.

I ymarfer ar gyfer yr arholiad, dylai canolfannau annog yr ymgeiswyr i ymestyn eu hatebion drwy ganolbwyntio ar y berfau gorchmynnol ac ychwanegu mwy o gydbwysedd i gwestiynau sy'n gofyn am werthuso, trafod neu ystyried testun. Byddai hyn yn galluogi'r ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Hefyd, dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r marciau sydd ar gael am bob cwestiwn ac ymestyn eu hatebion lle bo hynny'n briodol.
Gall cyn-bapurau, cynlluniau marcio ac adnoddau arweiniad i'r arholiad gefnogi'r gwaith o addysgu techneg arholiad.

Gwelwyd rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ardderchog ynglŷn â chymhorthion ac addasiadau, gweithgareddau chwarae perthnasol, maeth a deunyddiau hybu iechyd. Mae'r meysydd y dylid canolbwyntio arnynt wrth addysgu yn ymwneud â phwysigrwydd y brif ddeddfwriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran hybu iechyd a llesiant a'r cymorth y gall gweithwyr gofal ei roi i unigolion o fewn amrywiaeth o leoliadau. Mae cymhwyso gwybodaeth at y senarios yn y papur yn allweddol er mwyn ennill y marciau uwch.

Roedd yn ymddangos bod cwestiynau 1, 4a, 4b, 5a a 7a yn hygyrch iawn a chawsant eu hateb yn dda gan yr ymgeiswyr. Roedd cwestiynau 2, 5c a 6b yn fwy heriol ac yn llai hygyrch i'r ymgeiswyr a dylid canolbwyntio arnynt wrth addysgu.

Asesu Mewnol: Uned 2

Rhaid canmol y canolfannau am lanlwytho gwaith ar amser, a hynny ynghyd â dogfennaeth ategol gan mwyaf, ond noder y gallai ymgeiswyr golli eu marciau ar gyfer yr uned hon am beidio â dilysu eu gwaith drwy ei lofnodi.

Gan fod y ddau aseiniad yn cael eu cynnal dan amodau dan reolaeth, dylid uwchlwytho tystiolaeth o nodiadau a wnaed cyn yr asesiad a logiau amser gyda'r gwaith i roi tystiolaeth o'r oriau ymgysylltu â'r sector. Roedd yr anodiadau'n dangos lle rhoddwyd marciau i ymgeiswyr yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r broses gymedroli; ychydig o anodiadau a gafwyd ar rywfaint o'r gwaith. Gan fod gofyn i ymgeiswyr ymgysylltu â'r sector o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, roedd y rhai mewn ysgolion prif ffrwd dan anfantais wrth gwblhau rhai adrannau o aseiniad 2. Dylai canolfannau wneud pob ymdrech i osod ymgeiswyr mewn lleoliadau lle gall gweithwyr iechyd a/neu ofal cymdeithasol proffesiynol gael eu harsylwi. Mewn addysg brif ffrwd, gallai hyn fod gyda nyrsys ysgol, seicolegwyr addysgol neu weithwyr cymdeithasol ysgolion. Nid yw athrawon a gweithwyr gofal plant yn darparu ehangder perthnasol y wybodaeth y mae ymgeiswyr ei angen ar gyfer yr aseiniad hwn.

Dylid sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud nodiadau o ansawdd da fel rhan o'u gwaith ymgysylltu â'r sector, gan y bydd y rhain yn ategu eu gwaith pan fyddant yn ysgrifennu'r adran ar ymarfer adfyfyriol ac arsylwi personol, gan osgoi sylwadau generig sy'n aros yn y bandiau marciau is.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Meysydd i'w gwella

- Ymarfer ar gyfer yr arholiad, gan ganolbwyntio ar ferfau gorchmynnol: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ Arweiniad i'r arholiad ac adborth ar asesiadau'r haf
- Ategu a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ Adnodd dysgu

© WJEC CBAC Cyf.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Haf 2026

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

Trosolwg o'r Uned

Mae'r uned hon yn archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr ynglŷn ag agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws y rhychwant oes. Mae'r uned yn ymchwilio i effaith ffactorau mewn bywyd, dewisiadau bywyd a digwyddiadau mewn bywyd ar dwf, iechyd a llesiant, gan gynnwys y rhai sy'n llywio hunangysyniad.

Yr haf hwn, roedd yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad ar y cyfan, ac roedd y rhan fwyaf o'r sgriptiau wedi'u cyflwyno'n glir ac yn cynnwys ymatebion darllenadwy. Roedd yn galonogol gweld mwy o ymgeiswyr yn defnyddio'r opsiwn ar gyfer cyflwyno'n ddigidol yn hyderus ac yn briodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn deall y geiriau gorchymyn a ddefnyddiwyd, ond collwyd rhai marciau o ganlyniad i gamddarllen cwestiynau, manylder cyfyngedig a defnydd annigonol o derminoleg y pwnc. Anogir y canolfannau i barhau i atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr ym mhob rhan o'r fanyleb. Hefyd, dylai'r ymgeiswyr fod yn hyderus wrth wahaniaethu rhwng y meysydd i'w datblygu ac ymateb yn uniongyrchol i ffocws pob cwestiwn. Roedd ffactorau sy'n effeithio ar hunangysyniad, fel y'u hamlinellir yn adran 1.3 o'r fanyleb, yn parhau i fod yn heriol i rai ymgeiswyr. Bydd defnydd cyson o derminoleg y fanyleb yn cefnogi ymatebion mwy manwl gywir.

Dylid hefyd annog yr ymgeiswyr i gymhwyso deddfwriaeth yn uniongyrchol at yr unigolyn a'r senario a enwir yn y cwestiwn, yn hytrach na rhoi disgrifiadau cyffredinol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cwestiwn 1
Cafwyd dechrau calonogol i'r papur gan yr ymgeiswyr, wrth i'r rhan fwyaf ohonynt ddewis un blwch yn gywir i nodi p'un a oedd pob gweithgaredd yn helpu i ddatblygu sgiliau echddygol bras neu fanwl. Fodd bynnag, nododd rhai ymgeiswyr yn anghywir fod defnyddio cyllell a fforc yn enghraifft o ddatblygu sgiliau echddygol bras.

Cwestiwn 2
Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r gwahanol sectorau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Yr ymateb cywir oedd Age Cymru, ond dewisodd rhai ymgeiswyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lle hynny.

Cwestiwn 3

(a) Rhoddwyd credyd am gerrig milltir clir a oedd yn gysylltiedig â datblygiad deallusol yn ystod cam bywyd oedolaeth yn benodol. Ymhlith yr ymatebion priodol roedd datrys problemau a dysgu sgiliau newydd, fel rheoli biliau'r cartref.

© WJEC CBAC Cyf.2026

(b) Roedd angen i'r ymgeiswyr nodi agweddau ar ddatblygiad cymdeithasol mewn oedolaeth ddiweddarach. Er enghraifft, rhoddwyd credyd am gydnabod y gall ymddeoliad leihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol.

Nid oedd ymatebion amwys nac atebion un gair, fel “swydd”, yn ddigon i ennill credyd. Dylid annog yr ymgeiswyr i fynegi eu gwybodaeth yn glir.

Cwestiwn 4

(a) Nododd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gywir mai plentyndod yw cam bywyd Taya.

(b) Roedd yn braf gweld bod yr ymgeiswyr yn deall y term niwtral o ran rhywedd yn gyffredinol. Ymhlith yr enghreifftiau poblogaidd o weithgareddau niwtral o ran rhywedd roedd gemau pêl, chwarae rôl a pheintio.

(c) Esboniodd llawer o'r ymgeiswyr yn glir fod gweithgareddau chwarae niwtral o ran rhywedd yn hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb ac arferion anwahaniaethol. Datblygodd yr ymatebion a gyrhaeddodd y band marciau uchaf y pwyntiau hyn ymhellach drwy gyfeirio at berthnasoedd llawn parch a chyfleoedd i brofi gweithgareddau nad ydynt ar gael gartref o bosibl, lle y gall stereoteipiau rhywedd gael mwy o ddylanwad ar weithgareddau chwarae.

(d) Roedd yr ymatebion yn y band marciau uchaf yn cydnabod bod Taya yn 6 oed ac yn defnyddio ffactorau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol i ystyried yr effeithiau posibl ar bob agwedd ar ei datblygiad. Gwnaeth yr ymatebion cryfaf hefyd gyflwyno trafodaeth gytbwys drwy gydnabod effeithiau cadarnhaol posibl treulio mwy o amser gartref. Er enghraifft, gallai Taya ddatblygu ei sgiliau echddygol manwl drwy gwblhau gweithgareddau llawdrin fel posau jig-so a lliwio.

Cwestiwn 5

(a) Roedd yn braf gweld amrywiaeth eang o offer priodol yn cael ei nodi er mwyn cefnogi rhywun 80 oed sy'n byw ar ei ben ei hun. Ymhlith yr ymatebion cyffredin roedd cadeiriau esgyn, fframiau cerdded a systemau larwm personol. Rhoddwyd credyd am ffôn symudol hefyd.

(b) Roedd yr ymatebion yn y band marciau uchaf yn cyfiawnhau pwysigrwydd prydau bwyd maethlon dyddiol ar gyfer iechyd a llesiant. Llwyddodd yr atebion cryfaf i gysylltu prydau bwyd ag anghenion maeth oedolyn hŷn, fel cefnogi'r system imiwnedd, gan gydnabod hefyd y dylai prydau bwyd fod yn bleserus a chynnig rhywbeth i edrych ymlaen ato.

(c) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr gymharu taflenni a'r cyfryngau cymdeithasol fel dulliau o hybu iechyd a llesiant mewn oedolaeth ddiweddarach. Perfformiodd yr ymgeiswyr yn dda ar y cyfan, gan gydnabod yn aml y gall taflenni fod yn fwy hygyrch i'r grŵp oedran hwn a'u bod yn aml yn cael eu llunio gan ffynonellau dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt. Yn yr ymatebion cryfaf, cafwyd cymhariaeth glir rhwng y ddau ddull.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Cwestiwn 6
Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr roi esboniadau clir a manwl o dair ffordd y gallai gweithwyr gofal a chymorth gefnogi preswylwyr. Roedd atebion un gair a phwyntiau bwled heb eu datblygu wedi'u cyfyngu i'r band marciau is ar y cyfan.

(a) Roedd yr ymatebion yn aml ond yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; er y gallai llawer o'r ymgeiswyr nodi'r saith nod llesiant, cawsant eu cymhwyso at y preswylwyr cartref gofal mewn modd sylfaenol yn aml. Esboniodd yr ymatebion cryfaf sut y gallai'r Ddeddf hyrwyddo disgwyliadau uchel ar gyfer preswylwyr, gan gynnwys cyfleoedd i geisio gwaith a chymryd rhan yn eu cymuned leol.

Cwestiwn 7

(a) Rhoddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr amlinelliad clir o arwahanu cymdeithasol.

(b) Rhoddwyd credyd am amrywiaeth o ffactorau priodol sy'n achosi arwahanu cymdeithasol heblaw am brofedigaeth, gan gynnwys salwch hirdymor a bwlio.

(c) Cafwyd ymatebion cryf i'r cwestiwn hwn a oedd yn ymwneud â therapi siarad. Esboniodd yr ymgeiswyr sut y gallai helpu Arwel i ddatblygu strategaethau ymdopi, meithrin gwydnwch a deall neu herio meddyliau ac ymddygiadau negyddol. Rhoddwyd marciau yn y band uchaf i ymatebion a gysylltodd therapi siarad yn glir â gwell gwydnwch a hunangysyniad mwy cadarnhaol.

Cwestiwn 8

(a) rhoddodd yr ymgeiswyr ystod dda o ymatebion. Llwyddodd y rhai a ysgrifennodd yn hyderus am effeithiau colli swydd ar wahanol agweddau ar dwf, iechyd a llesiant Nadia i ennill marciau yn y band uchaf. Roedd ymatebion a ganolbwyntiodd ar straen a cholli incwm yn unig yn llai datblygedig.

(b) roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddisgrifio ffyrdd y gallai Nadia wella ei hiechyd meddwl a'i llesiant, a chafodd ei ateb yn dda yn gyffredinol. Wrth baratoi ar gyfer yr arholiad, dylid annog yr ymgeiswyr i roi esboniadau manwl ac osgoi atebion un gair, gan eu bod yn cyfyngu ar y marciau sydd ar gael.

(c) dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd hunangysyniad cadarnhaol, gan gyfeirio amlaf at ddatblygu gwydnwch a meddylfryd twf.

© WJEC CBAC Cyf.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Haf 2026

UNED 2: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PERTHYNAS Â CHEFNOGI DARPARIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU AR GYFER GOFAL PERSON-GANOLOG

Trosolwg o'r Uned

Mae canolfannau i'w canmol am eu hymrwymiad a'u hymdrech barhaus i fodloni'r gofynion cyflwyno. Cyflwynodd pob canolfan eu samplau ar gyfer Aseiniad 1 ac Aseiniad 2 o fewn y cyfnod gofynnol. Roedd y samplau wedi'u cyflwyno'n dda ar y cyfan, gyda rhifau ymgeiswyr wedi'u cymhwyso'n gywir yn y rhan fwyaf o achosion a'r ffurflenni dilysu wedi'u llenwi'n briodol. Fodd bynnag, roedd nifer bach o'r rhai a gyflwynwyd yn cynnwys gwallau neu hepgoriadau yn y dogfennau adnabod a dilysu ymgeiswyr.

Roedd yr anodiadau gan aseswyr yn amrywio'n sylweddol ar draws canolfannau o ddim anodiadau o gwbl i sylwadau manwl ac wedi'u cyfiawnhau'n dda a oedd yn cefnogi'n glir y band marciau a'r radd a roddwyd. Dylai canolfannau gofio bod anodi effeithiol yn hanfodol er mwyn cefnogi'r broses gymedroli ac i fod yn dryloyw wrth gymhwyso'r meini prawf asesu. Yn unol â manyleb CBAC (tudalen 33), dylai canolfannau sicrhau y caiff yr holl logiau ymgysylltu â'r sector eu cyflwyno fel tystiolaeth bod yr ymgeiswyr wedi cwblhau'r 60 awr orfodol o ymgysylltu â'r sector. Mae cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn hanfodol ar gyfer dilysu cyflawniad dysgwyr.

Ar y cyfan, roedd y samplau a gyflwynwyd yn drefnus ac wedi'u hanodi er mwyn cefnogi'r broses gymedroli allanol. Roedd rhai canolfannau wedi cynnwys nodiadau ymgeiswyr ac wedi darparu tystiolaeth o gyfrif geiriau'r ymgeiswyr, sy'n unol â'r disgwyliadau o ran amodau asesiad dan reolaeth. Caiff Aseiniad 1 ac Aseiniad 2 eu cwblhau dan amodau rheoledig gydag uchafswm cyfrif geiriau o 5,000 o eiriau. Ceir lwfans ychwanegol i ymgeiswyr roi nodiadau ategol, a disgwylir tystiolaeth glir o'r broses hon. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, roedd y sylwadau, cyfeiriadau, neu ddogfennaeth ategol a anfonwyd gan aseswyr i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn gan CBAC yn gyfyngedig.

Roedd Aseiniad 2 yn gofyn i'r ymgeiswyr gyflawni cyfnod o leoliad gwaith perthnasol mewn lleoliad Iechyd a/neu Ofal Cymdeithasol a chwblhau 60 awr o ymgysylltu â'r sector. Er bod rhai canolfannau wedi darparu'r dystiolaeth hon yn effeithiol, aeth ychydig o'r ymgeiswyr i leoliadau ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin. Roedd hyn yn eu rhoi dan anfantais wrth fynd i'r afael â gofynion yr asesiad. Rhaid pwysleisio eto eleni nad yw lleoliadau addysgol prif ffrwd yn addas ar gyfer y fanyleb hon. Cynghorir canolfannau yn gryf i gyfeirio at ganllawiau CBAC i sicrhau bod lleoliadau priodol yn cael eu dewis ar gyfer y cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol hwn.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Roedd yr amrywiaeth o siaradwyr gwadd a'r gweithgareddau ymgysylltu â'r sector yn amrywio o ganolfan i ganolfan, ac mewn rhai achosion roedd hyn yn effeithio ar ansawdd cyffredinol gwaith yr ymgeiswyr. Ystyrir bod rhannu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i ymgysylltu â'r sector yn arfer da. Yn ogystal, rhaid i ganolfannau sicrhau bod logiau ymgysylltu â'r sector yn cael eu huwchlwytho gyda'r holl waith a gyflwynir, yn unol â chanllawiau CBAC. Mae'r logiau hyn yn hanfodol ar gyfer gwirio'r ymgysylltiad â'r sector a chefnogi'r broses asesu.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Roedd arferion asesu yn amrywio ar draws canolfannau. Er bod rhai aseswyr wedi darparu anodiadau clir a manwl i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd, ni wnaeth eraill gynnig fawr ddim sylwadau, os o gwbl, gan ei gwneud hi'n anodd deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau graddio. Mewn sawl achos, rhoddwyd marciau yn y bandiau uwch er mai ymdriniaeth rannol o'r meini prawf asesu a gafwyd. Yn ogystal, roedd achosion lle roedd yn ymddangos fel petai marciau wedi'u dyrannu heb gyfeirio at y cynllun marcio neu at yr ymatebion a awgrymwyd, gan arwain at bryderon am gywirdeb a chysondeb yr asesiad.

Yn Aseiniad 2, cyfeiriodd ambell ymgeisydd at athrawon neu gynorthwywyr addysgu fel y rolau swyddi a ddewiswyd o'u lleoliad gwaith. Rhoddodd rhai aseswyr farciau yn y band uchaf i'r gwaith, a hynny'n anghywir, am nodi rôl swydd amhriodol. Gall y math hwn o wall arwain at roi'r ymgeiswyr mewn trefn restrol anghywir, gan olygu y gall fod angen samplau ychwanegol o waith ymgeiswyr.

Atgoffir canolfannau o bwysigrwydd glynu wrth amodau'r asesiadau dan reolaeth, gan gynnwys cyflwyno nodiadau, logiau amser, ac anodiadau clir gan aseswyr. Mae'r elfennau hyn yn hanfodol i gefnogi'r broses gymedroli a sicrhau tegwch a thryloywder wrth roi marciau. Gwelwyd anodi anghyson a thystiolaeth gyfyngedig o safoni mewnol ar draws y canolfannau, ac effeithiodd hynny ar y cyfiawnhad i'r marciau a roddwyd.

Aseiniad 1

Tasg A
Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y dasg. Fodd bynnag, nid oedd digon o ddyfnder mewn llawer o'r ymatebion ac nid oeddent yn cymhwyso dosbarthiad Anghenion Sylfaenol Pobl Max-Neef yn llawn. Roedd yr amlinelliadau'n fyr iawn weithiau, ac ni wnaethant fynd i'r afael â'r cwestiwn a osodwyd, a oedd yn gofyn am amlinelliad o'r ffordd roedd anghenion John/Liam wedi newid o ganlyniad i'r newid yn eu cyflwr iechyd. Yr ymgeiswyr hynny a nododd y rhan fwyaf o'r anghenion, ynghyd â disgrifiad byr a oedd yn berthnasol i'r unigolyn yn yr astudiaeth achos, a enillodd y marciau uchaf. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ddefnyddio is-benawdau neu uwcholeuo'r anghenion penodol. Roedd hyn yn arfer da a sefydlodd ffocws clir ar y cwestiwn a osodwyd.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Tasg B (i)
Nododd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ddau o'r canlyniadau llesiant personol y byddai John/Liam yn hoffi eu cyflawni.

Tasg B (ii)
Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn â gweithio amlddisgyblaethol, gan roi diffiniad priodol. Fodd bynnag, ni wnaeth ambell un o'r ymgeiswyr ymhelaethu ar eu hateb er mwyn mynd i'r afael â'r ffordd y gallai aelodau penodol o dîm amlddisgyblaethol, fel therapydd galwedigaethol neu ddeietegydd, helpu John/Liam i gyflawni'r canlyniadau llesiant a nodwyd. Nid oedd dyfnder i lawer o'r ymatebion, gyda dim ond disgrifiad cyfyngedig o rolau a chyfraniadau penodol gweithwyr proffesiynol mewn timau amlddisgyblaethol gan gyfeirio at yr unigolyn yn yr astudiaeth achos.

Tasg C
Defnyddiodd llawer o'r ymgeiswyr y mnemonig GATEAU wrth esbonio heriau posibl a oedd yn wynebu John/Liam. Roedd y fformat hwn yn galluogi'r ymgeiswyr i roi esboniad manwl, ac roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau yn y bandiau canolig i'r bandiau uwch ar gyfer y cwestiwn hwn.

Tasg Ch (i)
Rhoddodd llawer o'r ymgeiswyr esboniadau cadarn o bwysigrwydd empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth helpu John/Liam i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Dim ond disgrifio'r elfennau hyn heb gyfeirio at John/Liam yn benodol neu eu canlyniadau llesiant personol penodol a wnaeth nifer sylweddol o'r ymgeiswyr. Ar gyfer John, cafodd y cysylltiad â chefnogi ei berthnasoedd teuluol ei hepgor yn aml ac, ar gyfer Liam, y cysylltiad â'i ffrindiau a gafodd ei hepgor. Ni wnaeth ambell ymgeisydd fynd i'r afael â phob un o'r tair elfen, a chafodd 'dibynadwyedd' ei ddiffinio neu ei esbonio'n anghywir gan gyfeirio'n benodol at John/Liam.

Tasg Ch(ii)
Yn aml, roedd yr ymgeiswyr wedi deall y disgrifiadau o'r codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol mewn ffordd generig. Llwyddodd yr ymatebion a enillodd farciau yn y bandiau uwch i nodi codau ymarfer penodol sy'n nodweddiadol o dîm amlddisgyblaethol John/Liam, er enghraifft drwy gyfeirio at nodweddion Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer nyrs.

Tasg D
Roedd y cwestiwn olaf hwn yn gofyn am drafodaeth AA3 ar y ffordd mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ceisio cefnogi a hybu iechyd a llesiant personol John/Liam.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda ynglŷn ag egwyddorion y Ddeddf. Gwnaethant drafod amrywiaeth o egwyddorion sy'n gysylltiedig â helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer John/Liam. Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymatebion enghreifftiau priodol o gyd-destunoli a chymhwyso at yr astudiaeth achos. Llwyddodd yr ymatebion a enillodd farciau yn y band uchaf i fynd i'r afael â'r ferf orchmynnol AA3 i gyflwyno trafodaeth gytbwys a dod i gasgliad cyffredinol.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Aseiniad 2
Tasg A
Ar y cyfan, rhoddodd yr ymgeiswyr grynodebau wedi'u strwythuro'n dda ar gyfer rolau amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr ddewis un gweithiwr proffesiynol o'u lleoliad gwaith, ac ail rôl o waith arall i ymgysylltu â'r sector. Roedd yr ymgeiswyr a roddwyd mewn lleoliadau/gwasanaethau amhriodol yn aml dan anfantais ac yn methu ag ennill marciau uwch na'r band isaf. Nid yw athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai canolfannau gofio bod angen cyfeirio at y rhestr gymeradwy o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar dudalennau 44–45 o'r fanyleb.
Er bod crynodebau yn aml wedi cael eu cyflwyno'n glir, roedd llawer ohonynt yn brin o fanylion digonol am y llwybrau gyrfa gofynnol ar gyfer y rolau a ddewiswyd, a gyfyngodd ar eu gallu i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Tasg B (i)
Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ofal person-ganolog, gan ddiffinio'r cysyniad yn glir ac esbonio rôl gydweithredol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cymhwyswyd canlyniadau llesiant at astudiaethau achos yn dda ar y cyfan, heb fawr ddim o farciau'n cael eu colli yn y maes hwn. Ymdriniwyd â'r adran hon yn gyson dda ar draws canolfannau.

Tasg B (ii)
Yn gyffredinol, rhoddwyd disgrifiadau da o'r cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda, gan gymhwyso'n glir at yr unigolyn yn yr astudiaeth achos. Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i nodi ac esbonio o leiaf dair mantais cadw at safonau proffesiynol, gan adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o'r disgwyliadau o fewn y sector.

Tasg B (iii)
Rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sylw boddhaol i esbonio sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd yr ymatebion yn dangos rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ond byddai mwy o ddyfnder a chysylltiadau â gweithredu ymarferol yn cryfhau eu perfformiad yn y maes hwn,

Tasg C
Rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau boddhaol ar y cyfan o sut roedd dwy o'r egwyddorion yn cael eu hybu a'u cefnogi mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth ddigonol o ddiogelu, er bod rhai ohonynt wedi cymysgu hynny ag iechyd a diogelwch cyffredinol. Roedd y ddealltwriaeth o gydgynhyrchu yn fwy cyfyngedig, yn enwedig ymhlith y rhai a gwblhaodd leoliadau gwaith mewn ysgolion amhriodol, lle roedd y cymhwyso'n aml yn aneglur neu heb ei ddatblygu'n ddigonol.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Tasg Ch

Roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cwblhau lleoliadau gwaith mewn lleoliadau perthnasol a phriodol, fel cartrefi gofal preswyl. Cafodd myfyrdodau eu cyflwyno'n dda ar y cyfan, gyda'r mwyafrif yn nodi cryfderau personol, gwendidau, a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, ychydig o adfyfyrio dyfnach a gafwyd yn aml ar sut roedd lleoliadau gwaith ac ymgysylltiad â'r sector wedi mireinio gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi adfyfyrio ar eu profiadau, fe'u hanogir i wneud defnydd llawnach o'u myfyrdodau yn eu hymatebion ysgrifenedig i gryfhau ansawdd eu gwaith.

Yn unol â'r gofynion a nodir ar fanyleb CBAC, atgoffir canolfannau bod yn rhaid cyflwyno'r holl logiau ymgysylltu â'r sector i gadarnhau bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r 60 awr orfodol o ymgysylltu â'r sector.

Argymhellion: Aseiniad 1

(a) Mae angen i'r ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn arholiad yn ofalus iawn er mwyn canolbwyntio ar:

- Ateb y cwestiwn a osodwyd. Dylid annog yr ymgeiswyr i uwcholeuo neu danlinellu geiriau allweddol yn y cwestiwn er mwyn osgoi mynd yn groes i'r cyfarwyddyd, er enghraifft drwy ateb dim ond rhan o'r cwestiwn a osodwyd.
- Ymateb i'r ferf orchmynnol gywir yn y cwestiwn arholiad.
- Gwirio'r marciau a roddwyd am bob un o dasgau'r aseiniad er mwyn i amser gael ei ddefnyddio'n effeithlon.

(b) Byddai'r ymgeiswyr yn elwa ar ymarfer cwestiynau yn rheolaidd, er mwyn i'r asesiad dan reolaeth hwn achosi llai o straen o bosibl, yn hytrach na bod yn brofiad anghyfarwydd iddynt. Mae angen i'r ymgeiswyr ddod yn fwy hyderus wrth ymdrin â'r gwahanol ferfau gorchmynnol er mwyn iddynt allu cyrraedd ac ennill marciau yn y bandiau marciau uchaf.

(c) Fel y nodir yn y fanyleb, dylid annog yr ymgeiswyr i ddefnyddio geirfa a therminoleg sector-benodol o'u gwaith ymgysylltu â'r sector galwedigaethol.

(d) **Mae angen i'r canolfannau atgoffa'r ymgeiswyr mai'r uchafswm cyfrif geiriau ar gyfer yr asesiad hwn yw 2,500 o eiriau.** Cyflwynodd nifer sylweddol o'r ymgeiswyr adroddiadau a oedd ymhell dros 2,500 o eiriau ar gyfer Aseiniad 1.

Aseiniad 2

1. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod dogfennau gweinyddu'n cael eu gwirio'n ofalus cyn iddynt gael eu lanlwytho i IAMIS. Roedd llofnodion a dogfennau allweddol ar goll o bryd i'w gilydd. Weithiau, roedd gwallau clercio ar y Taflenni Marcio ac, o bryd i'w gilydd, roedd y marciau ar waith yr ymgeiswyr yn wahanol i'r marc a roddwyd.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Eich cefnogi chi

Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 265139
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Cyf.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.2026